

# Dadansoddi achosion o dwyll etholiadol honedig yn y DU yn 2017

Crynodeb o'r data a gofnodwyd gan heddluoedd

2018

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda. Rydym yn gweithio i gefnogi democratiaeth iach, lle y seilir etholiadau a refferenda ar ein hegwyddorion sef ymddiriedaeth, cyfranogiad a dim dylanwad gormodol.

# Cynnwys

<b>Dadansoddi achosion o dwyll etholiadol honedig yn y DU yn 2017 .....</b>	<b>1</b>
Crynodeb o'r data a gofnodwyd gan heddluoedd .....	1
<b>1 Cyflwyniad .....</b>	<b>4</b>
Etholiadau yn 2017.....	5
<b>2 Crynodeb o'r data am achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2017.....</b>	<b>6</b>
Canlyniad achosion yn 2017 .....	7
Euogfarnau a rhybuddiadau ar gyfer twyll etholiadol yn 2017 .....	9
Categoriâu o achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2017 .....	12
Honiadau o bleidleisio ddwywaith.....	15
Dosbarthiad daearyddol o achosion o dwyll etholiadol honedig .....	15
Achosion o dwyll etholiadol honedig yn ôl y math o etholiad.....	17
<b>Atodiad A: Dadansoddi achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2017 .....</b>	<b>18</b>
Achosion ymgyrchu .....	18
Achosion pleidleisio.....	19
Achosion enwebu .....	21
Achosion cofrestru etholiadol .....	22
Cwynion eraill am etholiadau .....	23
<b>Atodiad B - Crynodeb o etholiadau a gynhaliwyd yn 2017 .....</b>	<b>24</b>
<b>Atodiad C: Data wedi eu diweddarau ar ganlyniadau achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2015 a 2016 .....</b>	<b>26</b>
Diweddariad ar achosion 2015.....	26
Euogfarnau 2015.....	27
Diweddariad ar achosion 2016.....	28

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae twyll etholiadol a chanfyddiad y cyhoedd o dwyll yn tanseilio democratiaeth ac yn gwanhau traddodiad cryf y Deyrnas Unedig o etholiadau rhydd a theg. Maent yn mynd â'r hawl i ffwrdd oddi wrth unigolion i bleidleisio fel y mynnent, yn gwyrddroi canlyniadau etholiadau ac yn gwanhau cyfreithlondeb cyrff etholedig, ac maent yn achosi drwgdybiaeth rhwng cymunedau. Mae'r risg o dwyll etholiadol yn fater y mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei ystyried yn ddifrifol dros ben.

1.2 Rydym wedi gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC - ACPO gynt, sef Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu) ers 2008 i gasglu data oddi wrth heddluoedd ynghylch achosion o dwyll etholiadol honedig a chael ffurflenni misol gan bob un o'r 45 o heddluoedd tiriogaethol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bob blwyddyn, rydym wedi cyhoeddi dadansoddiad o'r data hyn.

1.3 Rydym yn cyhoeddi data am nifer, math a chanlyniad yr achosion o dwyll etholiadol honedig er mwyn rhoi tryloywder a galluogi Swyddogion Canlyniadau, heddluoedd a'r rhai sy'n gwneud polisïau i ddeall natur yr honiadau ac unrhyw dueddiadau dros amser.

## **Canfyddiadau allweddol o ddadansoddi achosion o dwyll etholiadol honedig yn 2017**

Mae'r canfyddiadau allweddol a nodir yn y dadansoddiad hwn o achosion o dwyll etholiadol honedig yn 2017 yn cynnwys:

- Ar adeg cyhoeddi'r dadansoddiad hwn ym mis Mawrth 2018, cafwyd un euogfarn, ac roedd y bobl dan amheuaeth mewn chwe achos arall wedi cael rhybuddiad gan yr heddlu.
- Arweiniodd honiad o gambersonadu mewn gorsafoedd pleidleisio at un erlyniad llwyddiannus ac euogfarn.
- O'r wyth rhybuddiad a gafwyd, roedd pedwar mewn perthynas â throseddau cofrestru; un yn ddatganiad anwir ar ffurflen enwebu; dau yn cambersonadu wrth bleidleisio drwy'r post; ac un mewn perthynas â chofnod treuliau etholiad.
- Nid arweiniodd y mwyafrif o'r achosion (289), 79% o'r holl achosion, at yr un cam gweithredu (207) neu cawsant eu datrys yn lleol (82).
- Roedd bron i hanner yr holl achosion o dwyll etholiadol honedig a gofnodwyd yn droseddau ymgyrchu (165 o achosion), ac roedd y mwyafrif o'r rhain yn droseddau argraffnod.

1.4 Mae'r adrannau canlynol o'r papur hwn yn crynhoi'r data sy'n ymwneud â honiadau a wnaed yn ystod 2017, ac maent yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd gan heddluoedd yn ystod 2017. Cydnabyddwn nad oes dull ymarferol o gofnodi achosion posibl na hysbyswyd yr heddluoedd amdanynt. Mae hyn yn

golygu nad yw'r data hyn o bosibl yn gofnod cyflawn o'r holl weithgarwch a allai ymwneud â throseddau twyll etholiadol.

1.5 Rydym hefyd wedi cyhoeddi [taenlen](#) yn nodi natur a chanlyniad pob achos a gofnodwyd yn 2017 ar yr un pryd â'r dadansoddiad hwn. Mae Atodiad C o'r papur hwn hefyd yn darparu dadansoddiad wedi ei ddiweddarau o achosion o dwyll etholiadol honedig a gofnodwyd gan heddluoedd yn 2015 a 2016.

1.6 Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth a chymorth parhaus yr NPCC a swyddogion Pwynt Cyswllt Unigol (SPOCs) ym mhob heddlu am eu cydweithrediad a'u hymrwymiad i ddarparu'r data a grynhoir yn y ddogfen hon.

## Etholiadau yn 2017

1.7 Mae Atodiad B yn rhoi gwybodaeth fanwl am raddfa a natur y cyfranogiad yn yr etholiadau a gynhaliwyd yn ystod 2017.

## 2 Crynodeb o'r data am achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2017

2.1 Yn ystod 2017 cofnododd heddluoedd ledled y DU gyfanswm o 336 o achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throeddau o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (RPA) 1983.<sup>1</sup> Cofnododd heddluoedd hefyd 69 o gwynion eraill am etholiadau nad oeddent yn ymwneud â throeddau twyll etholiadol.<sup>2</sup>

2.2 Drwy'r adroddiad cyfan rydym yn cyfeirio at droseddau o dan adrannau o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (1983). Ceir rhestr o'r rhai mwyaf perthnasol <https://www.app.college.police.uk/app-content/policing-elections/core-principles-and-legislation/-table-of-relevant-rpa-1983-offences> yma.

2.3 Mae nifer a natur y digwyddiadau etholiadol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, felly nid yw'n bosibl dod i gasgliadau dibynadwy drwy gymharu nifer yr achosion o dwyll etholiadol honedig a gofnodwyd gan heddluoedd. Mae nifer yr achosion wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn, fel y dengys Tabl 1 isod<sup>3</sup>.

---

<sup>1</sup>Mae'r data hyn yn seiliedig ar ffurflenni a ddaeth i law'r heddlu hyd at **31 Ionawr 2018**.

<sup>2</sup> Yn cynnwys honiadau o'r canlynol: twyll neu ddifrod i eiddo, deunydd etholiadol neu gerbydau; stelcio; tresmasu; gwardio; blocio maes parcio gorsaf bleidleisio; cyfathrebiadau maleisus, sylwadau hiliol; trydariadau neu lythyrau sarhaus; ymosodiad; codi ofn ar ganfaswyr; torri hawlfraint.

<sup>3</sup> Mae'r achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2015 a 2016 yn cynnwys y rhai a ddaeth i law yn ystod 2017 ac felly nid ydynt yr un fath â'r niferoedd yn ein hadroddiad ar gyfer 2016.

**Tabl 1: Achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt 2010-17**

Blwyddyn	Achosion o dwyll etholiadol honedig	Cwynion eraill am etholiadau	Cyfanswm
2010	262	25	287
2011	242	53	295
2012	362	45	407
2013	148	31	179
2014	219	55	274
2015	518	167	685
2016	291	2	293
2017	336	69	405

2.4 Mae data'r heddlu yn ffynhonnell gynhwysfawr o dystiolaeth am achosion o dwyll etholiadol y rhoddwyd gwybod amdanynt, ond nid oes dull ymarferol o gofnodi achosion posibl na roddwyd gwybod amdanynt. Mae hyn yn golygu nad yw'r data hyn o bosibl yn gofnod cyflawn o'r holl weithgarwch a allai ymwneud â throeddau twyll etholiadol.


2.5 Mae diffyg ymwybyddiaeth berthynol ynghylch p'un a allai gweithgarwch gynnwys troeddau twyll etholiadol, ac amharodrwydd i roi gwybod i'r heddlu am honiadau o dwyll etholiadol, p'un a yw hynny oherwydd pryderon ynghylch diogelwch personol neu am nad ydynt yn hyderus yr ymchwilid i'r cwynion, wedi bod yn bryderon a gofnodwyd mewn ymchwil, sylwadau a chyflwyniadau a glywsom yn ystod ein gwaith ar dwyll etholiadol. Dyma un o'r rhesymau pam rydym wedi gweithio gyda Crimestoppers ers 2015 i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'i gwasanaeth rhoi gwybod am droeddau yn ddiennw cyn etholiadau.

2.6 I'r gwrthwyneb, mae'r achosion o dwyll etholiadol honedig a gofnodir gan heddluoedd bob blwyddyn yn cynnwys cyfran sylweddol lle na all ymchwiliadau'r heddlu nodi dystiolaeth na dod o hyd i dystiolaeth ddigonol bod trosedd wedi ei chyflawni neu nad oedd er budd y cyhoedd i erlyn (gweler y dadansoddiad o ganlyniadau achosion isod). Felly, nid yw cyfanswm yr achosion o dwyll etholiadol honedig a gofnodir, bob amser, yn adlewyrchiad cywir o raddfa'r twyll etholiadol yn y DU.

## Canlyniad achosion yn 2017

2.7 Mae Siart 1 isod yn dangos canlyniad achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ystod 2017.

## Siart 1: Canlyniad achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2017



2.8 Ar adeg cyhoeddi'r dadansoddiad hwn ym mis Mawrth 2018, roedd wyth person dan amheuaeth wedi cael rhybuddiad gan yr heddlu. Cafwyd un euogfarn yn dilyn ymchwiliad gan yr heddlu. Darperir rhagor o fanylion am bob un o'r achosion hyn isod.

2.9 Arweiniodd honiad o gambersonadu mewn gorsafoedd pleidleisio at un erlyniad llwyddiannus ac euogfarn. O'r wyth rhybuddiad a gafwyd:

- Roedd pedwar mewn perthynas â throseddau cofrestru.
- Roedd un mewn perthynas â datganiad anwir ar ffurflen enwebu.
- Roedd dau mewn perthynas â chambersonadu wrth bleidleisio drwy'r post.
- Roedd un mewn perthynas â chofnodion treuliau etholiad.

2.10 Roedd heddluoedd yn aros i gael cyngor ar erlyn mewn perthynas â saith achos arall, mewn dau achos roedd achos llys wedi'i ddwyn ac arweiniodd un achos at ryddfarn. Roedd 44 o achosion yn dal i fod yn destun ymchwiliad.

2.11 At ei gilydd cafodd 82 o achosion (sef 22% o'r holl achosion) eu datrys yn lleol gan heddluoedd, ac roedd cyngor anffurfiol yn cael ei roi gan naill ai'r heddlu neu gan y Swyddog Canlyniadau.

2.12 Mewn 207 o achosion (sef ychydig dros hanner yr holl achosion o dwyll etholiadol honedig) ni chymerodd yr heddlu unrhyw gamau pellach pan



ddaeth eu hymchwiliadau i ben. Roedd hyn yn cynnwys achosion lle nad oedd y gweithgarwch dan sylw yn drosedd mewn gwirionedd (74 o achosion), lle nad oedd unrhyw dystiolaeth bod trosedd wedi ei chyflawni (52 o achosion), neu lle nad oedd digon o dystiolaeth i enwi troseddwr (65 o achosion). Roedd hefyd yn cynnwys achosion lle y canfuwyd nad oeddent, yn dilyn ymchwiliad, wedi ymwneud â thwyll etholiadol (15 o achosion). Roedd achos ychwanegol lle roedd yr heddlu wedi cofnodi 'dim camau pellach' heb roi unrhyw esboniad.

2.13 Yn seiliedig ar y data a gofnodwyd gan heddluoedd, nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd o unrhyw achosion ar raddfa fawr o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â'r etholiadau a gynhaliwyd yn ystod 2017. Byddwn yn parhau i fonitro canlyniad yr achosion hynny yr ymchwilir iddynt o hyd neu'r rhai sy'n aros am gyngor ar erlyn, er mwyn nodi unrhyw achosion pwysig a allai arwain at erlyniad neu rybuddiad gan yr heddlu.

## Euogfarnau a rhybuddiadau ar gyfer twyll etholiadol yn 2017

2.14 Mae'r gollfarn a'r rhybuddiadau a amlygwyd yn dangos bod yr holl gamau a gymerir gan Swyddogion Canlyniadau, heddluoedd ac erlynwyr i ymateb i'r honiadau hyn yn trin twyll etholiadol gyda'r difrifoldeb y mae'n ei haeddu ac yn sicrhau y caiff troseddwr eu cosbi lle y bo hynny'n briodol.

### **Metropolitan (etholiad Senedd y DU, Waltham Forest) – Pleidleisio - Cambersonadu/anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio/pleidleisio fwy nag unwaith (i) Gorsaf bleidleisio (60-62 a 62A)**

Ar ôl yr etholiad cyffredinol, gwnaed honiad i'r heddlu mewn perthynas â neges cyfryngau cymdeithasol gan unigolyn anhysbys ar Twitter a nododd ei fod wedi pleidleisio ddwywaith, unwaith drwy'r post ac unwaith yn bersonol.

Cynhaliodd yr heddlu ymholiadau a gadarnhaodd fod y defnyddiwr Twitter wedi pleidleisio ddwywaith yn yr etholiad ar ôl iddo gofrestru ddwywaith yng nghyfeiriad ei gartref â mân amrywiad i'w enw.

Cyfwelwyd y defnyddiwr Twitter gan yr heddlu o dan rybudd ac ar ôl ymgynghori â Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac yna cafodd ei gyhuddo.

Ymddangosodd y defnyddiwr Twitter gerbron Llys Ynadon Tafwys lle y plediodd yn euog i'r drosedd o bleidleisio fwy nag unwaith.

Cafodd y defnyddiwr Twitter ddirwy o £150, cafodd orchymyn i dalu costau o £200 a gordal dioddefwyr o £30. Cafodd ei wahardd hefyd am dair blynedd rhag cofrestru a phleidleisio mewn unrhyw etholiad yn y DU ac ni chaniateir iddo gael ei ethol i Dŷ'r Cyffredin na chael unrhyw swydd etholedig o'r fath.

### **Swydd Derby (Etholiad lleol, Erewash) – Ymgyrchu - Cofnod treuliau (75-85)**

Cyflwynodd ymgeisydd ei dreuliau y tu allan i derfyn amser rheolaidd gan yr heddlu a'r cyngor ond methodd â gwneud hynny.

Arweiniodd hyn at ymchwiliad troseddol a gwrthododd y troseddwr gyflwyno ei dreuliau heb unrhyw esboniad rhesymol.

Ar ôl cael cyngor Gwasanaeth Eryl y Goron, cafodd yr ymgeisydd rybuddiad ffurfiol gan yr heddlu am fetu â chyflwyno ei dreuliau a derbyniodd hyn.

### **Dyfed-Powys (Etholiad lleol, Sir Gaerfyrddin) – Enwebiad - Datganiad anwir (ffurflen enwebu)(65(A) 1 (i))**

Ffugiodd asiant yr ymgeisydd lofnodion dau etholwr ar y ffurflen enwebu gan ymhoni eu bod yn lofnodion gwirioneddol dau etholwr enwebu, nad oeddent yn ymwybodol bod eu manylion yn cael eu defnyddio i enwebu'r ymgeisydd.

Nodwyd hyn gan y gweinyddwr etholiadol a roddodd wybod i'r heddlu.

Yn dilyn ymchwiliad dilynol, cafodd y troseddwr rybudd oedolyn ar ôl cyfaddef i'r drosedd.

### **Swydd Gaerlŷr (Etholiad lleol, Dinas Caerlŷr) – Cofrestru - troseddau cofrestru eraill (4 / 12 / 49)**

Cyfeiriwyd yr achos hwn at heddlu Caerlŷr gan Gyngor Dinas Caerlŷr ar ôl i'r cyngor gael nifer fawr o geisiadau i ymuno â'r gofrestr etholwyr mewn dau gyfeiriad yng Nghaerlŷr. Roedd y ddau gyfeiriad yn gyfeiriadau amlfeddiannaeth myfyrwyr, ond roedd y nifer a oedd yn gwneud cais i gofrestru yn amheus.

Cynhaliwyd ymholiadau a nodwyd y prif berson dan amheuaeth mewn cyfeiriad arall yng Nghaerlŷr. Cafodd y person dan amheuaeth ei arestio a chafodd ei eiddo ei chwilio pan ganfuwyd dau fewnfudwr anghyfreithlon, sydd wedi'u hallgludo ers hynny.

Wrth chwilio yn ystafell y prif berson dan amheuaeth, canfuwyd tystiolaeth yn ei gysylltu â'r ddau eiddo lle gwnaed y ceisiadau cofrestru lluosog. Cyfaddefodd ei fod wedi cael mynediad i'r cyfeiriadau er mwyn sefydlu achosion o dwyll a'i fod wedi rhoi enwau ffug i'r cyngor lleol er mwyn sefydlu'r cofrestradau. Rhoddwyd rhybuddiad yr heddlu.

### **Metropolitan (Ddim yn ymwneud yn benodol ag etholiad, Hackney) – Cofrestru - Gwybodaeth anwir (13D (1))**

Yn ôl y sôn, roedd un o ganfaswyr yr awdurdod lleol wedi rhoi nifer o ffurflenni cofrestru ffug i'r tîm etholiadol.

Er bod y canfasiwr wedi gwadu cwblhau'r ffurflenni yn anghywir wrth dîm yr etholiad, ni thalwyd cydnabyddiaeth am y canfasio.

Yna, cyfeiriwyd y mater hwn at yr heddlu a chafodd ymchwiliad ei sefydlu. Cynhaliodd yr heddlu gyfweiliadau mewn 15 o gartrefi a ddangosodd nad oedd y canfasiwr wedi ymweld ag unrhyw un ohonynt.

Cafodd y canfasiwr ei gyfsweld gan yr heddlu a chyfaddefodd fod y ffurflenni wedi'u cwblhau drwy dwyll.

Cafodd y canfasiwr rybuddiad oedolyn gan yr heddlu.

### **Metropolitan (Ddim yn ymwneud yn benodol ag etholiad, Tower Hamlets) – Pleidleisio - Cambersonadu/anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio/pleidleisio fwy nag unwaith (60-62 a 62A)**

Cafodd yr heddlu wybod gan aelod o'r cyhoedd eu bod yn poeni am neges yr oedd defnyddiwr Facebook wedi'i rhannu cyn yr etholiad cyffredinol.

Roedd y defnyddiwr Facebook wedi gofyn i'w gysylltiadau os nad oeddent yn bwriadu pleidleisio eu hunain y dylent ystyried gadael i'r defnyddiwr Facebook ddefnyddio eu pleidlais yn lle hynny.

Cynhaliodd yr heddlu ymholiadau a arweiniodd at gyfsweld â'r defnyddiwr Facebook a gyfaddefodd ei fod wedi rhannu'r neges.

Yn dilyn hynny, cafodd y defnyddiwr Facebook rybuddiad oedolyn gan yr heddlu.

### **De Cymru (Etholiad lleol, Caerdydd) - Pleidleisio - Cambersonadu/anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio/pleidleisio fwy nag unwaith (i) Pleidlais bost (60-62 a 62A)**

Gwnaed honiad bod y person dan sylw wedi cwblhau tair pleidlais bost aelodau eraill o'r teulu hefyd yn ogystal â'i pleidlais ei hun a'i gyflwyno i adran Gwasanaethau Etholiadol Caerdydd i'w cynnwys yn y broses etholiadol. Cafwyd datganiad gan Gyngor Caerdydd ynghyd â'r datganiad pleidleisio drwy'r post a chais ar gyfer pob un o'r pleidleisiau post.

Cafodd y troseddwr ei gyfsweld a chafwyd datganiadau gan reolwr y Gwasanaethau Etholiadol a'r gŵr, mab a merch.

Cafodd y troseddwr rybuddiad gan yr heddlu am y drosedd o wneud offeryn anwir yn groes i adran 1 o Ddeddf Ffugiadau a Drwgfathu 1981.

### **Gorllewin Mersia (Ddim yn ymwneud yn benodol ag etholiad, Cyngor Swydd Amwythig) - Cofrestru - Gwybodaeth anwir (13D (1))**

Canfuwyd bod y troseddwr wedi ceisio cofrestru ei hun yn unigol fwy nag unwaith mewn cyfeiriad lle nad oedd yn byw ond a arferai fod yn eiddo i'w fam-gu a'i dad-cu. Gwnaeth y troseddwr gais i gofrestru ar-lein a chafodd ei gyfateb i'r cyfeiriad hwnnw gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar sawl achlysur.

Ar ôl cael gwybod gan ddeiliad y cartref yn y cyfeiriad hwn cyfaddefodd mewn cyfweliad â'r heddlu nad oedd ganddo unrhyw gysylltiad â'r cyfeiriad yr oedd yn cofrestru ynddo ac felly cafodd rybuddiad gan yr heddlu.

### **Gorllewin Swydd Efrog (Etholiad Senedd y DU, Leeds) – Cofrestru - Gwybodaeth anwir (13D (1))**

Roedd y troseddwr yn gweithio fel Swyddog Ymweld Cofrestru Etholiadol yr oedd ei rôl yn cynnwys cynnal ymholiadau o ddrws i ddrws a gofyn i'r deiliaid gwblhau Ffurflenni Ymholiadau Cartrefi.

Honnir na chynhaliodd y troseddwr yr ymweliadau hyn ac nad aeth i unrhyw un o'r cartrefi dan sylw ac yn hytrach ei fod wedi ffugio dogfennau etholiadol drwy eu llofnodi yn enwau'r deiliaid.

Esboniad y troseddwr am hyn oedd ei fod wedi camddeall ei hyfforddiant a'i fod o'r farn y gallai llofnodi'r ffurflenni ar ran y deiliad pe byddent yn gwrthod gwneud hynny eu hunain. Roedd yn honni hefyd bod rhai deiliaid wedi llofnodi wrth ymyl enwau cyn-ddeiliaid y cartref. Hefyd, roedd yn honni bod ei fab 8 oed wedi llofnodi un o'r ffurflenni.

Gwrthodwyd yr holl esboniadau uchod gan y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol a chafodd y troseddwr gyfweliad arall a rhoddwyd rybuddiad amodol iddo am dwyll drwy ymholiad anwir.


## **Categoriâu o achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2017**

2.15 Fel y dangosir yn Siart 2 isod, nifer yr achosion ym mhob categori o droseddau twyll etholiadol honedig a gofnodwyd gan heddluoedd yn ystod 2017 oedd:

- **Pleidleisio** - 104 o achosion, yn cyfrif am 31% o'r holl achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt
- **Ymgyrchu** - 165 o achosion, yn cyfrif am 49% o'r holl achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt

- **Enwebu** - 25 o achosion, yn cyfrif am 7% o'r holl achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt
- **Cofrestru** - 36 o achosion, yn cyfrif am 11% o'r holl achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt
- **Gweinyddol** - 3 achos, yn cyfrif am 1% o'r holl achosion y rhoddwyd gwybod
- **Amrywiol** - 3 achos, yn cyfrif am 1% o'r holl achosion y rhoddwyd gwybod


**Siart 2: Nifer yr achosion ym mhob categori o droseddau'n ymwneud â thwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2017**



2.16 Ceir dadansoddiad manwl o bob un o'r categorïau hyn o drosedd yn atodiad A.

2.17 Dengys Siart 3 isod y categorïau gwahanol o achosion o dwyll etholiadol honedig a gofnodwyd gan heddluoedd ers 2010, fel cyfran o'r cyfanswm a gofnodir bob blwyddyn.

**Siart 3: Categoriâu o achosion o dwyll etholiadol honedig a gofnodwyd gan heddluoedd ers 2010<sup>4</sup>**



2.18 Dengys Siart 3 fod gostyngiad yng nghyfran yr achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throeddau pleidleisio, ar ôl cynnydd yn ystod 2016, er bod hyn dal yn uwch o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

2.19 Bu gostyngiad hefyd yn nifer yr achosion a oedd yn ymwneud â honiadau o gambersonadu mewn gorsafoedd pleidleisio o 2016 pan gafwyd cynnydd – cafwyd 21 o achosion yn 2014, 26 yn 2015, 45 yn 2016 a 28 yn 2017.

<sup>4</sup> Mae'r wybodaeth yn y siart hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u diweddarau ar gyfer 2015 a 2016.

## Honiadau o bleidleisio ddwywaith

2.20 Yn y diwrnodau yn dilyn etholiad cyffredinol y DU yn 2017, honnodd nifer o bobl ar gyfryngau cymdeithasol eu bod wedi pleidleisio ddwywaith yn yr etholiad cyffredinol. Cawsom gryn dipyn o ohebiaeth yn cyfeirio at y sylwadau hyn ar gyfryngau cymdeithasol – nododd ein hadroddiad ar gofrestru etholiadol yn Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig yn 2017, ar adeg cyhoeddi, ein bod wedi cael 1,013 o e-byst a 15 o alwadau ffôn gan aelodau o'r cyhoedd yn cyfeirio at adroddiadau yn y cyfryngau am yr honiadau hyn.

2.21 Hyd yma, mae 60 o lythyrau wedi dod i law gan 47 o ASau yn lleisio pryderon etholwyr ar y mater hwn.

2.22 Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi casglu gwybodaeth o heddluoedd ledled y DU am statws presennol eu hymchwiliadau i honiadau o bleidleisio ddwywaith. Ym mis Rhagfyr 2017, gwnaethom nodi bod cyfanswm o 17 o honiadau unigol o bleidleisio ddwywaith wedi'u nodi o honiadau a wnaed yn uniongyrchol i'r heddlu neu'n anuniongyrchol drwy gynrychiolwyr etholedig, y wasg neu'r cyfryngau cymdeithasol.

2.23 Erbyn diwedd mis Ionawr 2018, roeddem wedi cael gwybod am bum honiad o dwyll etholiadol a oedd yn ymwneud â phleidleisio ddwywaith gan Bwyntiau Cyswllt Unigol yr heddlu.<sup>5</sup>

2.24 Fel y nodir uchod, arweiniodd un o'r achosion hyn at euogfarn. Nid arweiniodd dau achos at unrhyw gamau pellach ar ôl i ymchwiliadau'r heddlu ddod i ben; dosbarthwyd un fel 'arall' a nodwyd na fyddai er budd y cyhoedd i erlyn; ac mae'r achos sy'n weddill dal yn destun ymchwiliad.

## Dosbarthiad daearyddol o achosion o dwyll etholiadol honedig

2.25 Dengys Tabl 2 isod nifer yr achosion o dwyll honedig a gofnodwyd gan bob heddlu yn ystod 2017. Nid yw'r nifer hon yn cynnwys cwynion a wnaed i'r heddlu nad oeddent yn ymwneud â throeddau RPA.

2.26 Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll etholiadol honedig gan wyth heddlu yn ystod 2017 neu nid oeddent wedi dychwelyd gwybodaeth erbyn 31 Ionawr. Yr heddluoedd hyn oedd:

- Heddlu Swydd Bedford
- Heddlu Dinas Llundain
- Heddlu Dorset
- Heddlu Essex

---

<sup>5</sup> Efallai na chafodd y 12 o honiadau sy'n weddill eu cofnodi gan heddluoedd, neu gallent fod wedi'u cynnwys yn y ffurflenni data nas cyflwynwyd i ni erbyn 31 Ionawr 2018.

- Heddlu Gwent
- Heddlu Gogledd Cymru
- Heddlu Surrey
- Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr

2.27 Ceir dadansoddiad manwl fesul heddlu (o nifer yr achosion a'r honiadau yn 2017, gyda manylion am y drosedd o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl a'u canlyniadau) ar [ein gwefan](#).

**Tabl 2: Nifer yr achosion o dwyll etholiadol honedig a gofnodwyd gan heddluoedd y DU yn 2017**

Heddlu	Nifer yr achosion
Gwasanaeth Heddlu Metropolitaidd	57
Heddlu Gorllewin Swydd Efrog	29
Cwnstabiliaeth Dyfnaint a Chernyw	21
Heddlu Gorllewin Mersia	21
Heddlu Swydd Lincoln	16
Heddlu Northumbria	15
Heddlu Swydd Nottingham	14
Cwnstabiliaeth Durham	13
Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon	10
Heddlu De Cymru	10
Heddlu Swydd Warwick	10
Cwnstabiliaeth Swydd Hertford	8
Heddlu Swydd Stafford	8
Cwnstabiliaeth Swydd Gaergrawnt	7
Cwnstabiliaeth Swydd Gaerloyw	7
Cwnstabiliaeth Swydd Gaerhirfryn	7
Heddlu'r Alban	6
Heddlu De Swydd Efrog	6
Cwnstabiliaeth Avon a Gwlad yr Haf	5
Cwnstabiliaeth Swydd Gaer	5
Cwnstabiliaeth Cumbria	5
Cwnstabiliaeth Swydd Derby	5
Heddlu Manceinion Fwyaf	5
Cwnstabiliaeth Hampshire	5
Cwnstabiliaeth Swydd Gaerlŷr	5
Cwnstabiliaeth Norfolk	5
Heddlu Cleveland	4
Heddlu Glannau Humber	4
Heddlu Sussex	4
Heddlu Caint	4
Heddlu Glannau Mersi	4



Heddlu	Nifer yr achosion
Heddlu Gogledd Swydd Efrog	3
Heddlu Dyffryn Tafwys	3
Heddlu Dyfed-Powys	2
Heddlu Swydd Northampton	1
Cwnstabiliaeth Suffolk	1
Heddlu Wiltshire	1

2.28 Dengys ein dadansoddiad o'r data a gofnodwyd gan heddluoedd, mewn perthynas â'r mwyafrif o ardaloedd awdurdod lleol unigol, mai dim ond un neu ddau achos o dwyll etholiadol honedig a gofnodwyd.

2.29 Cofnododd heddluoedd fwy na deg achos mewn dim ond pum ardal awdurdod lleol unigol:

- cofnodwyd 11 o achosion mewn perthynas â Northumberland
- cofnodwyd 13 o achosion mewn perthynas â Swydd Durham
- cofnodwyd 14 o achosion mewn perthynas â Bradford
- cofnodwyd 14 o achosion mewn perthynas â Chernyw
- cofnodwyd 16 o achosion mewn perthynas â Tower Hamlets

2.30 Mae Bradford a Tower Hamlets yn ardaloedd lle y nodwyd risg uwch o honiadau o dwyll etholiadol, a lle mae'r Swyddogion Canlyniadau a'r heddluoedd priodol eisoes wedi rhoi camau ychwanegol ar waith i fynd i'r afael â thwyll etholiadol sy'n mynd ymhellach na'r cynlluniau y byddem fel arfer yn disgwyl eu gweld mewn ardaloedd â risg is o honiadau o dwyll.

## Achosion o dwyll etholiadol honedig yn ôl y math o etholiad

2.31 Dengys Tabl 3 isod nifer yr achosion o dwyll etholiadol honedig yn ôl y math o etholiad. Nid yw'r nifer hon yn cynnwys cwynion a wnaed i'r heddlu nad oeddent yn ymwneud â throeddau RPA.

**Tabl 3: Nifer yr achosion o dwyll etholiadol honedig a gofnodwyd gan heddluoedd y DU yn 2017**

Math o etholiad	Nifer yr achosion
Cynulliad Gogledd Iwerddon	1
Llywodraeth leol – Lloegr	129
Llywodraeth leol – Cymru	11
Cynghorau'r Alban	3
Etholiadau Maerol Awdurdod Cyfunol	0
Etholiadau maerol lleol	10
Etholiad cyffredinol Senedd y DU	148
Is-etholiad Seneddol y DU	7
Plwyf	6

Math o etholiad	Nifer yr achosion
Is-etholiad lleol	1

2.32 Cofnodwyd 20 o achosion pellach fel rhai nad ydynt yn ymwneud yn benodol ag etholiad, fel proses dreigl ar gyfer cofrestru etholiadol

## Atodiad A: Dadansoddi achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2017

Yma, rhown ddadansoddiad o achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2017 fel y'i diffiniwyd yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA 1983). Mae RPA 1983 yn diffinio'r rhan fwyaf o droseddau ar gyfer etholiadau cyffredinol Senedd y DU, etholiadau llywodraeth leol Lloegr a materion cofrestru etholiadol a phleidleisio drwy'r post ledled y DU. Ceir manylion amdanynt ar ein [gwefan](#).

Dosberthir y rhan fwyaf o droseddau o dan RPA 1983 fel arferion llwgr neu anghyfreithlon. Mae arferion llwgr yn dditiadwy gydag uchafswm cosb o garchar am flwyddyn a/neu ddirwy, heblaw am droseddau cam-bersonadu a gwneud cais ffug i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, sef uchafswm cosb o garchar am hyd at ddwy flynedd a/neu ddirwy. Mae arferion anghyfreithlon yn droseddau diannod ac yn amodol ar ddirwy.


### Achosion ymgyrchu

Roedd bron i hanner yr holl achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt (165 o achosion, sef 49% o'r cyfanswm) yn ymwneud â throseddau ymgyrchu.

Fel y dangosir yn y siart isod, y mathau o achosion pleidleisio y rhoddwyd gwybod amdanynt amlaf oedd y rhai a oedd yn ymwneud â'r drosedd o fethu â chynnwys manylion am yr argraffwr, hyrwyddwr a/neu gyhoeddwr ar ddeunydd etholiadol, y cyfeirir ato fel 'argraffnod' (96 o achosion). Y drosedd o wneud datganiad ffeithiol anwir am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd oedd y drosedd ymgyrchu amlaf ond un y rhoddwyd gwybod amdani (57 o achosion).

O'r gweddill, roedd 11 o achosion yn ymwneud â throseddau treuliau etholiadol ymgeiswyr ac 1 yn ymwneud â gwahardd canfaswyr cyflogedig.

## Siart A1: Dadansoddiad o achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throseddau ymgyrchu



Nid yw nifer y troseddau yn cyfateb i nifer yr achosion ymgyrchu gan fod pedwar achos oedd yn cynnwys mwy nag un person dan amheuaeth a sawl canlyniad.

Yn y mwyafrif o achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throseddau ymgyrchu ni chymerodd yr heddlu unrhyw gamau pellach ar ôl dod â'u hymchwiliadau i ben – 89 o achosion. Mewn 34 o'r achosion hyn roedd hyn am ei bod yn glir na chyflawnwyd unrhyw drosedd, ac mewn wyth achos arall nododd yr heddlu nad oedd y drosedd honedig yn cynnwys twyll etholiadol. Mewn 27 o achosion ni chanfuwyd digon o dystiolaeth gan yr heddlu i gwblhau ei ymchwiliad, ac mewn 20 o achosion eraill nid oedd yn bosibl enwi'r person dan amheuaeth.

Cafodd 61 o achosion eu datrys yn lleol gan heddluoedd, a rhoddwyd cyngor naill ai gan yr heddlu neu gan y Swyddog Canlyniadau.

Mae 22 o achosion eraill yn parhau i fod yn destun ymchwiliad; mae un yn aros am gyngor ar erlyn; ac mae achos llys wedi'i ddwyn ar gyfer un. Roedd wyth achos lle y cofnododd yr heddlu ganlyniad 'arall'.

Derbyniwyd rhybuddiad yr heddlu ar gyfer achos cofnod treulïau.


## Achosion pleidleisio

Dengys ein dadansoddiad fod 31% o'r holl achosion cofnodedig o dwyll etholiadol honedig (104 o achosion) yn ymwneud â throseddau pleidleisio honedig.

Fel y dangosir yn siart A2, roedd y mathau o achosion pleidleisio y rhoddwyd gwybod amdanynt amlaf yn ymwneud â throedd cambersonadu (pleidleisio fel rhywun arall) naill ai mewn gorsaf bleidleisio (28 o achosion), defnyddio pleidlais bost (22 o achosion) neu ddefnyddio pleidlais drwy ddirprwy (13 o achosion). Roedd 14 o achosion eraill yn ymwneud â'r drosedd o ddylanwad gormodol.

Mae'r achosion pleidleisio sy'n weddill yn ymwneud ag ymgais i ymyrryd â phapurau pleidleisio (tri achos), torri gofynion cyfrinachedd (wyth achos), llwgrwobrwyo (wyth achos) ac anrhegu rhywun - darparu bwyd neu ddiod i ddylanwadu ar bleidleisiwr i bleidleisio mewn ffordd benodol - (wyth achos).

**Siart A2: Dadansoddi achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throeddau pleidleisio**



Nid yw nifer y troeddau yn cyfateb i nifer yr achosion pleidleisio gan fod pum achos yn cynnwys mwy nag un person dan amheuaeth â honiadau gwahanol.

Yn y mwyafrif o achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throeddau pleidleisio (cyfanswm o 74 o achosion) ni chymerodd yr heddluoedd unrhyw gamau pellach ar ôl dod â'u hymchwiliadau i ben. Mewn 22 o achosion roedd hyn am ei bod yn glir na chyflawnwyd unrhyw drosedd, ac mewn pedwar achos nododd yr heddlu nad oedd y drosedd honedig yn cynnwys twyll etholiadol. Mewn 23 o achosion ni chanfuwyd digon o dystiolaeth gan yr heddlu i gwblhau ei ymchwiliad, mewn 24 o achosion nid oedd yn bosibl enwi'r person dan amheuaeth ac mewn pedwar achos arall

canfuwyd nad oedd yn drosedd o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl. Yn yr achos arall ni chofnododd yr heddlu'r rheswm dros beidio â chymryd camau pellach.

Cafodd cyfanswm o 16 o achosion yn ymwneud â throseddau pleidleisio honedig eu datrys yn lleol gan heddluoedd, a rhoddwyd cyngor naill ai gan yr heddlu neu gan y Swyddog Canlyniadau. Mae 11 o achosion eraill yn parhau i fod yn destun ymchwiliad ac mae tri yn aros am gyngor ar erlyn. Roedd pum achos lle y cofnododd yr heddlu ganlyniad 'arall'.


Arweiniodd un achos at euogfarn, mewn perthynas â chambersonadu mewn gorsaf bleidleisio. Arweiniodd dau achos yn ymwneud â chambersonadu pleidlais bost honedig at rybuddiadau gan yr heddlu.

## Achosion enwebu

Roedd achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throseddau enwebu yn cyfrif am 25 o achosion, sef saith y cant o gyfanswm yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt.

Fel y dangosir yn y siart isod, yr achos enwebu y rhoddwyd gwybod amdano amlaf oedd un yn ymwneud â'r drosedd o wneud datganiad anwir ar ffurflen enwebu (13 o achosion). Roedd 12 o achosion eraill yn ymwneud â honiadau fod ymgeisydd yn anghymwys i sefyll.

### Siart A3: Dadansoddiad o achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throseddau enwebu



Nid yw nifer y troseddau yn cyfateb i nifer yr achosion enwebu gan fod un achos yn cynnwys dau berson dan amheuaeth â honiadau gwahanol.

Yn y mwyafrif o achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throseddau enwebu (cyfanswm o 18 o achosion) ni chymerodd yr heddluoedd unrhyw gamau pellach ar ôl dod â'u hymchwiliadau i ben. Mewn naw achos roedd hyn am ei bod yn glir na chyflawnwyd unrhyw drosedd. Mewn saith

achos ni chanfuwyd digon o dystiolaeth er mwyn i'r heddlu gwblhau ei ymchwiliad. Mewn dau achos nid oedd yn bosibl enwi'r person dan amheuaeth.

Cafodd un achos yn ymwneud â throseddau enwebu honedig ar gyfer ymgeisydd anghymwys ei ddatrys yn lleol gan heddluoedd, a rhoddwyd cyngor naill ai gan yr heddlu neu gan y Swyddog Canlyniadau. Mae pedwar achos arall yn parhau i fod yn destun ymchwiliad ac mae dau yn aros am gyngor ar erlyn.


Roedd un achos yn ymwneud â honiadau fod datganiad anwir wedi ei wneud ar bapurau enwebu ar gyfer etholiad llywodraeth leol a arweiniodd at rybuddiad gan yr heddlu.

## Achosion cofrestru etholiadol

Roedd achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throseddau cofrestru etholiadol yn cyfrif am 11% o'r cyfanswm y rhoddwyd gwybod amdano yn 2017 (36 o achosion).

Fel y dangosir yn y siart isod, yr achos cofrestru y rhoddwyd gwybod amdano amlaf oedd un yn ymwneud â'r drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir mewn cais cofrestru etholiadol (24 o achosion). Roedd wyth achos yn ymwneud â'r drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir mewn cais i bleidleisio drwy'r post, a phedwar achos arall wedi'u dosbarthu yn 'droseddau cofrestru eraill'.

### Siart A4: Dadansoddiad o achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throseddau cofrestru



Yn y mwyafrif o achosion o dwyll etholiadol honedig yn ymwneud â throseddau cofrestru etholiadol (cyfanswm o 20 o achosion) ni chymerodd yr heddluoedd unrhyw gamau pellach ar ôl dod â'u hymchwiliadau i ben. Mewn chwe achos roedd hyn am ei bod yn glir na chyflawnwyd unrhyw drosedd.

Mewn wyth achos ni chanfuwyd digon o dystiolaeth gan yr heddlu i enwi person dan amheuaeth, canfuwyd nad oedd un achos arall yn drosedd o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl, ac mewn naw achos arall nid oedd yn bosibl enwi'r person dan amheuaeth.

Cafodd pedwar achos yn ymwneud â throseddau cofrestru etholiadol honedig eu datrys yn lleol gan heddluoedd, a rhoddwyd cyngor naill ai gan yr heddlu neu gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol neu Swyddog Canlyniadau. Mae saith achos arall yn destun ymchwiliad. Roedd un achos lle y cofnododd yr heddlu ganlyniad 'arall'.

Roedd tri achos yn ymwneud â honiad o ddarparu gwybodaeth anwir mewn cais cofrestru a rhoddwyd rhybuddiadau gan yr heddlu mewn un achos 'arall'.

## Cwynion eraill am etholiadau

Yn ogystal ag achosion o dwyll etholiadol honedig, cofnododd heddluoedd hefyd 69 o gwynion eraill am etholiadau, nad oeddent yn ymwneud â honiadau o dwyll etholiadol, er i gategori trosedd gael ei neilltuo iddynt yn natganiadau'r heddlu. Roedd y rhain yn cynnwys honiadau o: twyll neu ddifrod i eiddo, deunydd etholiadol neu gerbydau; stelcio; tresmasu; gwawdio; blocio maes parcio gorsaf bleidleisio; cyfathrebiadau maleisus, sylwadau hiliol; trydariadau neu lythyrau sarhaus; ymosodiad; codi ofn ar ganfaswyr; a thorri hawlfraint.

# Atodiad B - Crynodeb o etholiadau a gynhaliwyd yn 2017

Tabl B1: Cymryd rhan mewn digwyddiadau etholiadol yn ystod 2017

Etholiad	Dyddiad	Nifer y seddi a ymleddir	Y rhai sydd â hawl i bleidleisio	Pleidleisiau a fwriwyd	Y nifer a bleidleisiodd
Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon	2 Mawrth	90	1,254,709	812,783	64.8%
Etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr			18,800,046	6,583,306	35.0%
Etholiadau Maerol Awdurdodau Cyfunol		6	6,827,015	1,895,781	27.8%
Etholiadau cynghorau'r Alban		1227	4,110,790	1,927,149	46.9%
Etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru	4 Mai	1161	2,279,216	895,943	42.0%
Etholiadau maerol – Gogledd Tyneside		1	154,506	52,921	34.3%
Etholiadau maerol – Doncaster		1	221,789	65,104	29.4%
Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig	8 Mehefin	650	46,835,433	32,294,928	69.0%



<b>Etholiad</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Nifer y seddi a ymleddir</b>	<b>Y rhai sydd â hawl i bleidleisio</b>	<b>Pleidleisiau a fwriwyd</b>	<b>Y nifer a bleidleisiodd</b>
Isetholiadau Senedd y DU:					
Copeland	23 Chwe	1	60,602	31,108	51.3%
Stoke	23 Chwe	1	57,701	21,200	38.2%

# Atodiad C: Data wedi eu diweddaru ar ganlyniadau achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2015 a 2016


## Diweddariad ar achosion 2015

Yn ein dadansoddiad ym mis Mawrth 2017 o'r achosion o dwyll etholiadol honedig yn 2015 adroddwyd bod heddluoedd wedi cofnodi 481 o achosion o droseddau'n ymwneud â thwyll etholiadol honedig, a 184 o gwynion eraill.

Ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r heddlu wedi rhoi gwybod am ragor o achosion a chwynion mewn perthynas ag etholiadau 2015. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o 518 o achosion o droseddau twyll etholiadol honedig a 167 o gwynion eraill.

Mae Siart C2 isod yn dangos canlyniad achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt ar gyfer 2015. Dim ond un achos sy'n destun ymchwiliad o hyd o 2015 sy'n ymwneud â datganiad anwir ar ffurflen enwebu.

### Siart C2: Canlyniad achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2015



Roedd yr achosion nad arweiniodd at gymryd camau pellach yn cynnwys achosion lle nad oedd y gweithgarwch dan sylw yn drosedd mewn gwirionedd (188 o achosion), lle nad oedd unrhyw dystiolaeth bod trosedd wedi ei chyflawni (133 o achosion), neu lle nad oedd digon o dystiolaeth i enwi troseddwr (39 o achosion), a lle y canfuwyd, ar ôl cynnal ymchwiliad, nad oeddent wedi ymwneud â throseddau twyll etholiadol (11 o achosion). Mewn pedwar achos nid oedd digon o dystiolaeth i barhau ac ni nodwyd y rheswm mewn dau achos.

## Euogfarnau 2015

Ers ein hadroddiad yn 2017, cawsom wybod am dair euogfarn arall. Ni chafwyd unrhyw rybuddiadau eraill gan yr heddlu. Darperir manylion yr achosion hyn isod:

### **Northumbria (Etholiad cyffredinol Senedd y DU, Northumberland) – cofrestru – gwybodaeth anwir (Adran 13D (1))**

Yn 2014, cafodd tŷ yn Belford, Northumberland ei brynu gan berchenogion newydd. Cyn hir, cawsant ohebiaeth a hysbysiadau dosbarthu post a gollwyd ar gyfer cwmni unigolyn a restrwyd yn y cyfeiriad ond nad oedd yn byw yno.

Cysylltodd y perchenogion newydd â'r heddlu a rhoi gwybod iddynt am eu hamheuron bod rhywun yn defnyddio eu cyfeiriad drwy dwyll.

Cysylltodd cymdogion â'r perchenogion hefyd gan nodi bod rhywun wedi ceisio dosbarthu parseli i'r cyfeiriad a'u bod nhw wedi'u cadw ar eu cyfer. Disgrifiodd y perchenogion newydd fod dyn wedi galw yn y cyfeiriad i geisio casglu'r parseli a'i fod wedi sylwi bod menyw yn eistedd yn aros mewn car. Cadwodd y perchenogion y parseli a'u rhoi i'r heddlu ynghyd â'r hysbysiadau dosbarthu a gollwyd.

Anfonodd y perchenogion e-bost at yr Uwch Reolwr Etholiadau yng Nghyngor Sir Northumberland, yn mynegi pryder bod y person dan amheuaeth wedi'i chofrestru ar y gofrestr etholwyr yn y cyfeiriad. Cadarnhaodd ymholiadau bod cais ar-lein wedi'i gyflwyno gan y person dan amheuaeth i'w ychwanegu at y gofrestr etholwyr yn y cyfeiriad, a'i bod wedi gwneud cais am bleidlais bost.

Trosglwyddwyd y ceisiadau i'r tîm etholiadau gan fod angen rhagor o wybodaeth. Ysgrifennwyd at y person dan amheuaeth yn gofyn am brawf adnabod dogfennol, a darparwyd copi o'i thrwydded yrru gyda'r cyfeiriad yn Belford arno. Felly, roedd y cais yn llwyddiannus. Yn ddiweddarach, anfonwyd llythyr at y person dan amheuaeth yn rhoi gwybod iddi os na fyddai'n cysylltu â nhw y byddai ei henw'n cael ei dynnu oddi ar y gofrestr.

Dechreuwyd ymchwiliad twyll a arweiniodd at gyhuddo'r person dan amheuaeth o 16 o achosion o dwyll yn cynnwys y drosedd etholiadol. Ymysg ei throseddau roedd agor sawl cyfrif banc, sawl cerdyn credyd a chyfrif ffôn symudol. Mae'n ymddangos bod y person dan amheuaeth wedi rhoi ei henw ar y gofrestr etholwyr mewn perthynas â'r cyfeiriad yn Belford ac yna wedi'i ddefnyddio i agor cyfrifon cyfleustod.

Nodwyd twyll morgais hefyd yn dyddio o brynu eiddo ym mis Mai 2005 lle byddai'r manylion cyflogaeth a'r incwm a ddatganwyd wedi bod yn ffug. Yn ystod yr achosion o dwyll, defnyddiodd y person dan amheuaeth sawl enw ffug. Ar 31 Hydref 2016, aeth y person dan amheuaeth i Lys y Goron Newcastle lle y'i cafodd yn euog o'r 16 o achosion o dwyll.

Cafodd y person dan amheuaeth ddedfryd o garchar am gyfnod o wyth mis a ohiriwyd am 18 mis am dwyll drwy ymholiad anwir a dedfryd o garchar am gyfnod o bedwar mis wedi'i ohirio am 18 mis am ddarparu gwybodaeth anwir i'r swyddog cofrestru.

### **Sussex (etholiad cyffredinol Senedd y DU ac etholiad lleol Brighton and Hove ar y cyd) - Amrywiol**

Cafodd y person dan amheuaeth ei arestio am wthio dau rifwr etholiad o'r Blaid Werdd y tu allan i orsaf bleidleisio. Er nad oedd yn drosedd etholiadol benodol, cafodd ei chofnodi oherwydd ei chysylltiad â'r broses etholiadol. Casglwyd tystiolaeth a chafodd y person dan amheuaeth ei gyfsweld. Cafodd yr unigolyn ei gyhuddo o ymosodiad cyffredin. Fe'i cafodd yn euog, cafodd ei ryddhau'n amodol am 12 mis a gorchmynnwyd iddo dalu tâl llysoedd troseddol o £520, costau o £150 a gordal dioddefwyr o £15.

### **Gorllewin Swydd Efrog (etholiad cyffredinol Senedd y DU ac etholiad lleol ar y cyd, Bradford) – Ymgyrchu, 75 - 85 ffurflen treuliau**

Cafodd y person dan amheuaeth arian gan y Llywodraeth drwy wneud ymholiad anwir y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio i helpu gweithwyr gyda'r etholiad. Canfuwyd na chafodd unrhyw weithwyr cymorth eu defnyddio ac, felly, bod y person dan amheuaeth wedi cael £5760.00 drwy ymholiad anwir.

Plediodd y person dan amheuaeth yn euog i bedwar achos o dwyll a gyflawnwyd rhwng mis Chwefror a mis Mai 2015, sef cyfanswm o £6832.00. Yr achwynwyr yn yr achos hwn oedd Digital Outreach Limited, Glossop a oedd yn cynnal cynllun gan y Llywodraeth er mwyn helpu i ariannu a helpu pobl ag anableddau ag ymgyrchoedd etholiadol.


Cafodd ddedfryd o garchar am gyfnod o 12 wythnos wedi'i ohirio am 12 mis a chafodd hefyd orchymyn i ad-dalu £1000 o iawndal.

## **Diweddariad ar achosion 2016**

Yn ein dadansoddiad ym mis Mawrth 2017 o'r achosion o dwyll etholiadol honedig yn 2016 adroddwyd bod heddluoedd wedi cofnodi 260 o achosion o droseddau'n ymwneud â thwyll etholiadol honedig, a 27 o gwynion eraill.

Ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae achosion pellach o dwyll etholiadol honedig wedi'u cofnodi gan yr heddlu mewn perthynas ag etholiadau 2016. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o 291 o achosion o droseddau twyll etholiadol honedig a dim ond dwy gŵyn arall bellach. Caiff hyn ei egluro gan y ffaith bod heddluoedd ers hynny wedi gallu categorio rhai o'r cwynion a gofnodwyd yn flaenorol fel troseddau o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl.

**Siart C3: Canlyniad achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddyd gwybod amdanynt yn 2016**



Ni roddwyd gwybod am unrhyw euogfarnau eraill yn ymwneud ag achosion o 2016 yn 2017.

Roedd yr achosion nad arweiniodd at gymryd camau pellach yn cynnwys achosion lle nad oedd y gweithgarwch dan sylw yn drosedd mewn gwirionedd (64 o achosion), lle nad oedd unrhyw dystiolaeth bod trosedd wedi ei chyflawni (65 o achosion), neu lle nad oedd digon o dystiolaeth i enwi troseddwr (19 o achosion), a lle y canfuwyd, ar ôl cynnal ymchwiliad, nad oeddent wedi ymwneud â throseddau twyll etholiadol (23 o achosion). Mewn dau achos nid oedd digon o dystiolaeth i barhau ac ni nodwyd y rheswm mewn tri achos.